# Adroddiad y Cwrs Pryfed Hofran, Gardd Fotaneg Treborth, 31ain Mawrth – 1af Ebrill 2012

Croesawyd y rhai a gyrhaeddodd ar y bore Sadwrn gan sawl hambwrdd entomolegol gorlawn o gasgliad dryslyd o bryfed hofran o amrywiol siâp, maint a lliw. O dan amgylchiadau arferol, byddai'r arddangosfa hon wedi bod yn ergyd i hyder unigolion sy'n dechrau dangos diddordeb mewn pryfed o bob math, ond yn cadw cwmni i'r arddangosfa roedd Stuart Ball a Roger Morris, dau arweinydd hynod wybodus a brwdfrydig.

Ar y bore Sadwrn, cafwyd sgwrs gyflwyniadol yn egluro beth yw pryf hofran a sut i adnabod un oddi wrth y pryfed amrywiol eraill mae'n eu dynwared yn aml. Roedd yn rhyfeddol clywed eu bod ond yn ysgarthu unwaith fel larfa – yn union cyn troi'n chwiler! Roedd hefyd yn agoriad llygad dysgu pa mor amrywiol yw ecoleg larfaol y grŵp hwn o bryfed.



Yna cawsom ein harwain drwy'r allweddi i wahanol lwythi o bryfed hofran, gan fagu hyder i adnabod a dehongli'r nodweddion strwythurol pwysig a ddefnyddir yn yr allweddi. Daeth termau dieithr fel "hwmeri blewog" yn wybodaeth gyffredin yn fuan iawn ymhlith y grŵp, gan alluogi i ni weithio'n llwyddiannus drwy'r allweddi. Drwy ddefnyddio microsgop wedi'i alluogi gan daflunydd, roedd Roger a Stuart yn gallu tynnu sylw at y nodweddion pwysig nad oeddent bob amser yn amlwg i'r dechreuwr – cymorth dysgu amhrisiadwy.

Aeth y rhai a oedd yn bresennol ymlaen i weithio drwy esiamplau amrywiol, yn eu hamser eu hunain, gan ofyn am arbenigedd Roger a Stuart lle'r oedd angen, i gadarnhau llwyth. Daeth y sesiwn yma â diwrnod pleserus iawn i ben.

Daethom at ein gilydd unwaith eto fore Sul i adeiladu ar yr wybodaeth a ddysgwyd y diwrnod cynt. Roedd ffocws y diwrnod ar adnabod rhywogaethau. Yn debyg iawn i'r dydd Sadwrn, buom i gyd yn gweithio drwy sawl esiampl, wedi'u dewis yn ofalus i roi i ni brofiad o adnabod rhywogaethau o wahanol lwythi.



Am yn ail â'r gwaith microsgop, cafwyd sgyrsiau'n manylu ar ddulliau a thechnegau casglu, paratoi esiamplau a phwysigrwydd cyflwyno eich cofnodion i'r Cynllun Cofnodi Pryfed Hofran Cenedlaethol.

Daeth y cwrs i ben ar y prynhawn Sul, gyda phawb a oedd yn bresennol yn gadael gyda dealltwriaeth lawer gwell o bryfed hofran a sut i'w hadnabod. Y gobaith ydi y bydd y brwdfrydedd sydd wedi'i greu gan y cwrs hwn yn annog mwy o gofnodi ar y pryfed hyn yng Ngogledd Cymru.



## Adborth gwirfoddol ar y cwrs:

*"... Fe ddysgais i lawer iawn am bryfed hofran. Hwn ydi'r cwrs gorau i mi fod arno yn bendant."*

*"Roedd y gweithdy yn rhagorol ac yn adlewyrchu eich brwdfrydedd chi dros bryfed hofran. Cafwyd rhaglen wedi'i threfnu'n fanwl a'i hymarfer yn dda ar gyfer y deuddydd."*

cofnod
Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru
North Wales Environmental Information Service

Bioamrywiaeth Cymru Biodiversity Wales
PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP